**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: RE-231-2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

06 Gorffennaf 2023

Annwyl Peredur,

Yn bellach i fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a gynhaliwyd ar 22 Mehefin ym Mharc Cathays, Caerdydd, ac a gadeiriwyd gennyf i, hoffwn roi adroddiad cryno ichi ar y trafodaethau a gafwyd. Hefyd cyhoeddwyd neges ar ôl y cyfarfod hwnnw:
Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - 22 Mehefin 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)

Roedd y Gwir Anrhydeddus John Glen AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn bresennol gyda mi. Fe wnaeth swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fynychu'n rhithiol i arsylwi.

O ran cyllid yr UE, adroddais ar y cam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol. Dywedais fod y trafodaethau wedi bod yn gyfle i geisio eglurder a mynegi pryderon, a'u bod o gymorth i ddeall yr asesiadau amrywiol a'r mannau lle'r oedd gwahaniaethau wedi codi yn ein cyfrifiadau o gyllid llawn yn lle cyllid yr UE. Er mwyn symud ymlaen, pwysleisiais bwysigrwydd ymgysylltu'n gynt.

Roedd rhan gyntaf y cyfarfod yn canolbwyntio ar y pwysau ar wariant cyhoeddus a'r rhagolygon economaidd lle'r oedd yr argyfwng costau byw a chwyddiant yn parhau yn ganolog i'r drafodaeth. Gofynnais i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ystyried cymorth ychwanegol ar gyfer prynwyr ynni sy'n agored i niwed, y rheini sydd ar Gredyd Cynhwysol, a gwasanaethau sy'n rhoi cyngor ar ddyled.

Yn ystod y drafodaeth ar gyflogau yn y sector cyhoeddus, anogais Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG er mwyn cefnogi ei waith hanfodol wrth i'w ben-blwydd yn 75 oed nesáu, gan bwyso i gael eglurder o ran a ddarperir cyllid ychwanegol ar gyfer y llywodraethau datganoledig o ganlyniad i'r cynigion cyflog i'r GIG a'r Gwasanaeth Sifil yn Lloegr. Gan adeiladu ar y trafodaethau blaenorol ar hyblygrwydd cyllidebol, roeddwn yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gallu defnyddio’r drafodaeth ar gyflogau fel enghraifft i ddangos pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cael yr hyblygrwydd hwn.

Canolbwyntiodd ail ran y cyfarfod ar ddiogelwch ynni. Pwysleisiais ba mor bwysig oedd cydweithio wrth fynd i’r afael â diogelwch ynni a sicrhau bod y gost o sicrhau sero net yn cael ei gymdeithasoli a’i rannu mewn modd teg, er mwyn sicrhau nad yw’r bobl dlotaf yn ein cymunedau yn wynebu’r cynnydd cymharol fwyaf yn y costau y maent yn eu talu.

Rhoddais ddisgrifiad cryno o’r rhaglenni arloesol yr ydym yn buddsoddi ynddynt, gan argymell prosiectau y gallai Llywodraeth y DU ystyried buddsoddi ynddynt. Hefyd anogais fod buddsoddiad yn y grid trydan yng Nghymru.

Yn olaf, ceisiais gytundeb bod swyddogion yn adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a’r Protocolau Gweithredu, er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn rhedeg yn ôl y disgwyl o gymharu â phryd y cynhyrchwyd y dogfennau 18 mis yn ôl. Bydd swyddogion yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Llywodraeth y DU fydd yn lletya’r cyfarfod nesaf ym mis Medi.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government